Ceir cofnod o brif eitemau trafod agenda'r cyfarfodydd yn Atodiad 2.

CYNLLUNIO A THREFNU GWAITH CYSAG

Cyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2015 – 2016 roedd CYSAG wedi cytuno i drefnu a blaenoriaethu ei waith oddi fewn i fframwaith cynllun datblygu.

Ceir copi o gynllun datblygu 2015 - 2018, yn cynnwys manylion cynnydd a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, yn Atodiad 3.

CYLCHREDEG YR ADRODDIAD

Cafodd copïau o'r adroddiad hwn eu cylchredeg i sefydliadau/cymdeithasau a restrir yn Atodiad 6.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Crynodeb o'r cyngor a roddwyd i'r Awdurdod Lleol gan CYSAG.

ADDYSG GREFYDDOL

Nod: Monitro safonau a darpariaeth mewn Addysg Grefyddol

Gweithredu

1. Mae CYSAG yn ystyried ac yn dadansoddi adroddiadau arolwg ysgolion. Os oes yna unrhyw faterion yn codi ynghylch Addysg Grefyddol, megis diffyg diwallu gofynion statudol, mae'r Awdurdod Addysg yn mynd ar ôl y mater. Cafodd tair ysgol gynradd arolwg yn ystod y flwyddyn academaidd 2014 – 2015. Yn gyffredinol, roedd y sylwadau'n gadarnhaol gan ddatgan fod y cwricwlwm a'r gofynion statudol yn cael eu diwallu. Ni chafwyd unrhyw faterion yn codi mewn perthynas ag Addysg Grefyddol yn yr adroddiadau ac felly nid oedd unrhyw weithredu dilynol yn angenrheidiol.
2. Mae CYSAG yn dadansoddi canlyniadau arholiadau dros gyfnod o dair blynedd gan ddynodi tueddiadau perfformiad wedi eu meincodi yn erbyn data Cymru Gyfan. Mae CYSAG yn ysgrifennu at ysgolion ar ôl dadansoddi canlyniadau'r arholiadau. Mae'r llythyr yn cynnwys llongyfarchion am ganlyniadau da, ble y bo'n briodol, ac yn codi materion y dylai ysgolion fod yn mynd i'r afael â nhw o ganlyniad i'r dadansoddiad hwn.
3. Mae'r ALI a'i CYSAG yn casglu a dadansoddi data mewn perthynas ag asesiad athrawon CA3 Addysg Grefyddol. Caiff y wybodaeth hon ei chyflwyno i CYSAG a'i feincodi yn erbyn data Consortia, yna caiff y wybodaeth hon ei hanfon at yr holl ysgolion uwchradd yn yr ALI.

MAES LLAFUR CYTŪN

Nod: Diwallu gofynion cyfreithiol i adolygu'r maes llafur cytŷn ar gyfer Addysg Grefyddol

Gweithredu

1. Yn 2008 gwnaeth CYSAG Merthyr Tudful fabwysiadu maes llafur cytŷn newydd ar gyfer ysgolion yr awdurdod i'w gweithredu o fis Medi 2008. Gwnaeth pob ysgol dderbyn rhaglen Hyfforddiant mewn Swydd yn ystod haf 2008, a derbyn pecyn o ddeunyddiau cefnogi, yn cynnwys cynlluniau gwaith a ffeiliau *Progress in Learning* ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, er mwyn enghreifftio'r meysydd llafur newydd i ysgolion.
2. Ym mis Mehefin 2013, cymeradwyodd y Gynhadledd Sefydlog ail-fabwysiadu maes llafur cytŷn Addysg Grefyddol ar gyfer Merthyr Tudful, gyda'r ddealltwriaeth y byddai'r meysydd llafur yn cael eu hadolygu cyn gynted ag y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei derbyn mewn perthynas â'r asesiad ac adolygiad y Cwricwlwm Cenedlaethol.
3. Ers 2013, a thrwy gydol y flwyddyn academaidd 2015-2016 mae CYSAG wedi cael ei ddiweddarau bob tymor ar sail datblygiadau adolygiad y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae CYSAG yn aros am fanylion pellach oddi wrth

Lywodraeth Cymru ynghylch ffurf AG yn y cwricwlwm, a chyngor oddi wrth CYSAG Cymru, cyn dechrau ar unrhyw adolygiad o faes llafur cytûn.

DEUNYDDIAU ADDYSGU

Nod: Sicrhau fod ysgolion yn cael gwybod am adnoddau addysgu addas

Gweithredu

1. Rhoddwyd gwybod i'r holl ysgolion ynghylch thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2016 'Don't Stand By' ac y gellir dod o hyd i adnoddau Holocost am ddim ar eu gwefan www.hmd.org.uk <<http://www.hmd.org.uk>> - maent yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau o ffilmiau, deunydd addoli ar y cyd/ gwasanaeth a thafenni gwaith sy'n addas i ysgolion cynradd a disgyblion Ôl-16.
2. Cafodd CYSAG wybod am adnoddau a grëwyd gan Mary Parry, Awdurdod Lleol Sir Gâr, a oedd yn mynd i'r afael â'r mater o gyrhaeddiad bechgyn. Mae'r adnodd am "*Peldroedwyr Mwslin yn yr Uwch Gynghrair /Muslim Footballers in the Premier League.*" yn cynnwys agweddau am Bum Piler Islam ac yn codi materion o ran sut mae cred peldroedwyr Mwslimaidd yn effeithio ar eu bywydau. Gyda chaniatâd oddi wrth M Parry cytunodd CYSAG i ddsbarthu copi o'r deunydd adnoddau a'i CD ROM cysylltiedig i bob adran uwchradd yn ystod tymor yr hydref 2015.

HYFFORDD ATHRAWON

Nod: Sicrhau fod athrawon yn gallu cael mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus priodol

Gweithredu

1. Mae'r awdurdod lleol, drwy Gonsortiw Canolbarth y De, yn cynnig CDP i ysgolion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi pwyslais ar Lythrennedd a Rhifedd ar hyn o bryd a ni chaiff hyfforddiant penodol ei gynnig i AG.

ADDOLI AR Y CYD

Nod: Sicrhau fod ysgolion yn cyflawni gofynion statudol o ran addoli ar y cyd a darparu profiad gwerth chweil i ddisgyblion.

Gweithredu

1. Mae CYSAG yn monitro'r adrannau o adroddiadau arolygon sy'n ymwneud ag addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol. Os oes yna unrhyw faterion, megis diffyg diwallu gofynion statudol bydd yr ALI yn mynd ar ôl hynny. Cafodd adroddiadau arolwg tair ysgol gynradd ym Merthyr eu craffu. Nid oedd un ysgol a gafodd arolwg ym mis Ionawr 2015 yn cydsynio'n llwyr â gofynion statudol am addoli ar y cyd. Gofynnwyd am gopi o Gynllun Gweithredu'r Ysgol a darparwyd cyngor. Gwnaeth CYSAG hefyd ymweld â'r ysgol a derbyn cyflwyniad oddi wrth yr ysgol ar ei Addoli ar y Cyd Beunyddiol a'i gweithredoedd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad yr arolwg. Rhoddodd ymgynghorydd proffesiynol i CYSAG gyflwyniad ar 'Beth sy'n gwneud addoli ar y cyd da' yn ei gyfarfod haf fel modd o'u cefnogi o ran eu darpariaeth Addoli ar y Cyd Beunyddiol.

2. Cafodd ysgolion wybodaeth oddi wrth CYSAG ynghylch adnoddau a gwefannau priodol sy'n cefnogi addoli ar y cyd mewn ysgolion e.e. HMD 2016.

MATERION ERAILL:

Nod: Sicrhau CYSAG gwybodus drwy ddarparu diweddariadau rheolaidd ar faterion lleol a chenedlaethol.

1. Mae CYSAG yn parhau'n aelod o Gymdeithas Cymru'r CYSAGau (CCYSAGauC) ac mae'n derbyn adborth bob tymor oddi wrth gyfarfodydd y gymdeithas.
2. Mae aelodau wedi derbyn cyflwyniadau ac adroddiadau amrywiol eleni:
 - Rhoddodd Mrs V Thomas gyflwyniadau ar Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'i Oblygiadau o ran AG; Datblygiad Manylebau Arholiad Diwygiedig a Beth sy'n Gwneud Addoli ar y Cyd da mewn Ysgolion.
 - Rhoddodd Pennaeth AG, Ysgol Uwchradd Pen y Dre gyflwyniad ar *Ba mor effeithiol yw Hwb+ o ran gwella cyrhaeddiad ac agweddau negyddol tuag at ysgrifennu mewn AG?* Rhoddodd Ysgol Gynradd Twynyrodyn gyflwyniadau ar *Addoli ar y Cyd Beunyddiol - y Ffordd Ymlaen - a chyflwyniad ar Ddefnyddio Sgiliau Meddwl mewn AG.*

CRYNODEB O'R CYNGOR I'R AWDURDOD LLEOL AR ADDYSG GREFYDDOL

Y meysydd llafur cytûn lleol

Yn ystod tymor y Gwanwyn 2008, gwnaeth y Gynhadledd Sefydlog gymeradwyo a mabwysiadu maes llafur cytûn newydd ar gyfer ysgolion yr awdurdod i'w weithredu o fis Medi 2008. Cyflwynwyd rhaglen flynyddol Hyfforddiant Mewn Swydd i ysgolion cynradd ac uwchradd ar y meysydd llafur cytûn a deunyddiau cefnogi yn cynnwys cynlluniau gwaith a ffeiliau electronig *Progress in Learning* ar gyfer ysgolion uwchradd.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2012 - 2013 tynnwyd sylw CYSAG at gyhoeddiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynghylch adolygiad i ddod o ran asesiad a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru. Byddai'r adolygiad hwn yn cynnwys cyflwyno Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a dynodi diwygiadau i'r trefniadau cwricwlaidd cyfredol. Ym mis Mehefin 2013, cymeradwyodd CYSAG ail-fabwysiadu maes llafur cytûn Merthyr Tudful, gyda'r ddealltwriaeth y byddai'r meysydd llafur yn cael eu hadolygu cyn gynted ag y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei derbyn mewn perthynas ag asesiad ac adolygiad y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ers 2013-2015 derbyniodd aelodau ddiweddariadau rheolaidd ar ymgynghoriadau a ymgymerwyd mewn perthynas â Chwricwlwm Cenedlaethol ac adolygu asesiad, gwnaeth yr adroddiad ac argymhellion gan yr Athro Donaldson a CYSAG Merthyr ymateb i holiadur Llywodraeth Cymru ar argymhellion Donaldson.

Yn ystod 2015-2016, roedd CYSAG yn cael diweddariadau bob tymor ynghylch datblygiadau adolygiad y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae CYSAG yn aros am fanylion pellach oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch ffurf AG yn y cwricwlwm, a chyngor oddi wrth CCYSAGauC, cyn dechrau ar unrhyw adolygiad maes llafur cytûn AG.

Safonau mewn Addysg Grefyddol

Mae CYSAG wedi mabwysiadu nifer o strategaethau ar gyfer monitro safonau a gyflawnwyd mewn Addysg Grefyddol yn ysgolion yr awdurdod sy'n cynnwys dadansoddi adroddiadau arolwg ysgolion, monitro hunanwerthusiad, adolygu canlyniadau arholiadau a dadansoddi data CA3.

- **Canlyniadau Arholiadau**

Gwnaeth CYSAG ystyried perfformiad arholiadau yn yr ysgolion uwchradd ar gyfer 2015. Caiff canlyniadau arholiadau eu cymharu gyda ffigurau Cymru Gyfan ac â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol. Caiff aelodau CYSAG eu hysbysu hefyd o ganran carfan blwyddyn 11 sy'n cofrestru ar gyfer arholiadau TGAU Addysg Grefyddol (manyleb A a B). Mae canlyniadau'r arholiadau yn cael eu cyhoeddi fel atodiad ynghyd â chanlyniadau ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol.

Mae angen trin y canlyniadau gyda gofal am dri rheswm:

(1) y nifer cymharol isel sy'n dewis addysg grefyddol TGAU Safon Uwch A; mae hyn i'w weld yn arbennig wrth edrych ar gyfartaleddau ar gyfer yr ALI, sydd â phedair ysgol yn unig; (2) mae'r canrannau'n seiliedig ar y disgyblion hynny a gofrestrwyd ar gyfer yr arholiad, nid y rheini a ddewisodd y pwnc felly gallai mynediad dethol ddylanwadu ar gyfraddau llwyddo cyffredinol; (3) nid oes unrhyw ddynodiad sut y gwnaeth y disgyblion hynny a safodd astudiaethau crefydd berfformio mewn pynciau eraill felly nid yw'n bosibl mesur perfformiad disgyblion yn erbyn eu gallu cyffredinol.

Cafwyd 139 ymgeisydd **TGAU Cwrs Llawn Addysg Grefyddol** o 4 ysgol. Mae'r niferoedd ymgeisio ychydig yn is na'r blynyddoedd blaenorol ac wedi bod yn disgyn flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2012. Mae ffigurau dwbl o ran ymgeiswyr gan bob ysgol. Cyfartaledd carfan ymgeisio i Ferthyr Tudful yn 2015 oedd 23.2% sy'n is na'r ddwy flynedd flaenorol (2014 : 28.4% a 2013 : 25.2%)

% cyffredinol graddau A*- A oedd 30.2% sy'n well na pherfformiad blaenorol ac yn gymharol â ffigur y Consortiwm sef 31.7% a Chymru Gyfan sef 30%. % cyffredinol graddau A*- C oedd 74.1% a dyma'r canlyniad gorau o'r tair blynedd ddiwethaf sy'n well na ffigur y Consortiwm sef 72.7% ac yn gymharol â ffigur Cymru Gyfan sef 75%. % cyffredinol graddau A*-G oedd 98.6% ac mae'n gymharol â 2014 ond ddim gwell na ffigur y Consortiwm sef 97.1% a ffigur Cymru Gyfan sef 98%.

Roedd CYSAG yn falch o nodi fod canlyniadau yn well na neu'n gymharol â 2014 ac yn well na 2013 ar gyfer ffiniau'r graddau i gyd. Mae'r ffigurau'n gymharol â'r Consortiwm a ffigurau Cymru Gyfan ar gyfer ffiniau'r graddau i gyd.

Cafwyd cynnydd o ran ymgeiswyr eleni i **TGAU Cwrs Byr Addysg Grefyddol**. Roedd nifer yr ymgeiswyr o bob ysgol yn cyrraedd ffigurau triphlyg eleni ac felly'n ymgeisio sef canran sylweddol o'r garfan a disgyblion o bob lefel gallu. Mae rhai ysgolion yn cyflwyno enwau disgyblion ar gyfer dau gwrs byr ac mae eu perfformiad wedi ei adlewyrchu yng nghanlyniadau'r cwrs llawn. Fodd bynnag, y mae'n bwysig cadw mewn cof fod y disgyblion hynny sy'n ymgeisio am ddau gwrs byr ymhlith y mwyaf galluog gan fwyaf, a bydd hyn yn adlewyrchu ar ganlyniadau A*-A ac A*-C y Cwrs Byr.

Cyfartaledd mynediad carfan blwyddyn i Ferthyr Tudful yn 2015 oedd **54.3%** sy'n uwch na 2014 (45.1) a 2013 (37.5%)

% cyffredinol graddau A*- A yw 22.8% sef y perfformiad gorau dros y ddwy flynedd ddiwethaf a gwell na ffigur y Consortiwm sef 20.4% a ffigur Cymru Gyfan sef 14%. % cyffredinol graddau A*- C oedd 62.5% ac mae'n is na 2014 ond yn well na 2013 ac yn well na ffigur y Consortiwm 60.1% a ffigur Cymru Gyfan sef 52%. % cyffredinol graddau A*-G oedd 96.6% ac mae'n is na 2014 ond yn well na 2013 ac yn well na ffigur y Consortiwm sef 94.9% a ffigur Cymru Gyfan sef 93%.

Roedd CYSAG yn falch o nodi fod y canlyniadau'n well na ffigurau'r Consortiwm a ffigurau Cymru Gyfan ar gyfer ffiniau'r graddau i gyd a bos nifer sylweddol yn parhau i ymgeisio am y cwrs byr. Mae hyn yn galonogol iawn achos mae'n rhoi'r cyfle i ddisgyblion gael achrediad ar gyfer eu hastudiaeth CA4 yn enwedig pan nad yw disgyblion fel arfer yn dewis dilyn y Cwrs Byr ond ei fod yn cael ei gyflenwi fel rhan o ofynion statudol AG.

Mae disgyblion **TAG Safon Uwch a Safon UG** yn cael mynediad i Goleg Merthyr bellach yn sgil aildrefnu trydyddol. Derbyniodd CYSAG y canlyniadau oddi wrth y Coleg.

Roedd 25 ymgeisydd **Lefel A** ac astudiodd myfyrwyr Moeseg a Phrofiad Dynol i A2. Mae nifer yr ymgeiswyr wedi disgyn peth eleni.

Cyflawnodd 5% o'r myfyrwyr A*-A sy'n is na pherfformiad blaenorol a ffigur y Consortiwm sef 23.7% a ffigur Cymru Gyfan sef 23%. Gwnaeth ymgeiswyr A*-C gyflawni cyfradd llwyddo o 79% sy'n well na pherfformiad 2014 ond yn is na ffigur Consortia sef 81.8% a ffigur Cymru Gyfan sef 81%. Mae cyfraddau llwyddo ar gyfer

graddau yn 100% sy'n ardderchog ac yn gymharol â neu'n well na ffigurau'r Consortiwm a Chymru Gyfan.

Roedd 25 ymgeisydd ar gyfer **Safon AG** ac astudiodd y myfyrwyr Bwdhaeth a Moeseg AG.

Nid oedd unrhyw raddau A ac roedd hyn yr un peth â 2014. Gwnaeth ymgeiswyr A-C gyflawni cyfradd llwyddo o 68% sy'n well na pherfformiad blaenorol a ffigur y Consortia sef 63.7%. Mae cyfraddau llwyddo graddau A-E sef 100% yn ardderchog ac yn gymharol â pherfformiad 2014 ac yn well na ffigur y Consortiwm sef 92.7%

- **Data CA3**

Mae aelodau CYSAG Merthyr Tudful hefyd yn ystyried y lefelau a ddyfarnwyd gan athrawon ar ddiwedd CA3. Caiff cymariaethau eu gwneud â pherfformiad blaenorol mewn Addysg Grefyddol.

Mae 86.5% o ddisgyblion (bechgyn a merched) yn cyflawni Lefel 5 ac uwch sy'n dangos gwelliant flwyddyn ar ôl blwyddyn sef 79.3% (2014) a 66.3% (2013). Cafwyd hefyd gwelliant sylweddol o ran canlyniadau i fechgyn yn unig sef tua 11% ac i ferched yn unig, cafwyd gwelliant o tua 2.5%. Gwnaeth y bwch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched gulhau unwaith eto eleni sef 8% (2015) a 16% (2014). Mae canlyniadau cyffredinol yn 2015 yn gymharol â ffigurau Bechgyn/Merched Cymru Gyfan. Yn 2014 roedd yn is na ffigurau'r Consortiwm ar gyfer Bechgyn/Merched a Phob Disgybl. T

44.8% yw'r canlyniadau i bob disgybl ar L6+ ac mae hyn eto yn dangos gwelliant blwyddyn ar ôl blwyddyn o ran perfformiad sef 25.8% (2014) a 21.4% (2013). Mae perfformiad bechgyn wedi gwella'n sylweddol gan 20% tra bo perfformiad merched wedi gwella hefyd gan tua 18%. Mae'r bwch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched wedi disgyn i 16% ar L6+ a 18% (2014). Mae'r canlyniadau cyffredinol yn is na ffigurau'r Consortiwm i Fechgyn/Merched a Phob Disgybl.

Mae lefelau diwedd CA3 wedi eu cyhoeddi yn Atodiad 4.

- **Adroddiadau arolwg ysgolion**

Mae CYSAG, gyda chytundeb a chydweithrediad yr Awdurdodau Lleol, yn derbyn adroddiadau oddi wrth swyddogion proffesiynol ynghylch safonau ac yn adolygu crynodeb o adroddiadau am ganfyddiadau arolwg ac arolygon Estyn. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/16 derbyniodd aelodau CYSAG fanylion am arolygon ysgolion yr ymgwymerwyd â nhw rhwng hydref 2014 a haf 2015.

Cafodd adroddiadau arolwg tair ysgol gynradd eu dadansoddi. Cafwyd sylwadau bod gan ysgolion gysylltiadau cymunedol da gydag eglwysi lleol ac elusennau sy'n darparu profiadau cadarnhaol. Nid chafodd unrhyw faterion yn berthnasol i Addysg Grefyddol eu dynodi yn yr adroddiadau ac felly doedd dim gweithredu dilynol yn angenrheidiol.

Dulliau addysgu, dewis o ddeunydd addysgu, hyfforddi athrawon

Datblygiad Proffesiynol

Mae'r Awdurdod Lleol, drwy Gonsortiwm Canolbarth y De, yn cynnig DPP i ysgolion. Hysbysodd yr Awdurdod Lleol CYSAG nad oedd unrhyw hyfforddiant penodol yn cael

ei gynnig oherwydd pwyslais cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Lythrennedd a Rhifedd.

Newyddion AG

Cytunodd CYSAG hysbysu'r holl ysgolion am wefan Newyddion AG ac annog ysgolion i gyflwyno erthyglau <http://www.religious-education-wales.org>

Bob blwyddyn, mae gan CYSAG raglen o ymweliadau ag ysgolion ac mae'n derbyn cyflwyniad am AG a/neu Addoli ar y Cyd yn yr ysgolion. Ble y bo'n berthnasol, mae CYSAG yn annog ysgolion i gyflwyno erthyglau sy'n enghreifftio arfer da, i Newyddion AG. Eleni, cyflwynodd tair o ysgolion Merthyr ddeunydd i Newyddion AG.

Deunyddiau Addysgu

Adnoddau Diwrnod Cofio'r Holocaust 2016

Rhodddwyd gwybod i'r holl ysgolion ynghylch thema Diwrnod Cofio'r Holocaust 2016 'Don't Stand By'. Digwyddodd yr Holocaust a hil-laddiadau dilynol am fod poblogaethau lleol yn caniatáu'r erlid llechwraidd i ymwreiddio. Tra bo rhai yn ei gefnogi'n agored, neu'n hwyluso polisiâu'r wladwriaeth o ran erlid, safai'r mwyafrif yn dawel ar yr ymylon – ar y gorau roedd gormod o ofn arnynt i siarad allan; ar y gwaethaf roedden nhw'n ddifater. Y gwyliedyddion wnaeth alluogi i'r Holocaust, erledigaeth y Naziïd a hil-laddiadau dilynol ddigwydd.

Cafodd ysgolion eu hysbysu gan CYSAG fod gwybodaeth bellach am y thema ac adnoddau am ddim am yr Holocaust i'w canfod ar eu gwefan www.hmd.org.uk – yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau o ffilmiau, astudiaethau achos, deunydd addoli ar y cyd/gwasanaeth a thafleuni gwaith sy'n addas i ysgolion cynradd a myfyrwyr ôl-16.

Hysbyswyd ysgolion hefyd am gyfres o weithdai neu ddigwyddiadau a drefnwyd gan Wasanaeth Llyfrgell Merthyr. Mae'r rhain yn cynnwys Cystadleuaeth Ysgrifennu Llyfrgelloedd Merthyr sy'n cael ei chynnig i bob ysgol yn y fwrdeistref; Gwasanaeth a gynhelir yn Eglwys Dewi Sant, Merthyr, a gweithdy â'r teitl '*Testimony of a Holocaust Survivor*' gyda Harry Bibring, Goroeswr yr Holocaust, Kindertransport, yn adrodd ei hanes.

Adnoddau i Gefnogi Cyrhaeddiad Bechgyn

Cafodd CYSAG ei hysbysu am adnoddau a grëwyd gan Mary Parry, Awdurdod Lleol Sir Gâr, sy'n mynd i'r afael â chyrhaeddiad bechgyn. Mae'r adnodd "*Peldroedwyr Mwslim yn yr Uwch Gynghair / Muslim Footballers in the Premier League*" yn cynnwys agweddau o Bum Piler Islam ac yn codi materion o ran sut mae credoau peldroedwyr Mwslimaidd yn effeithio ar eu bywydau. Gyda chaniatâd oddi wrth M Parry, cylchredodd CYSAG gopi o'r deunydd adnoddau i bob adran uwchradd yn hydref 2016 ynghyd â CDROM cysylltiedig.

CRYNODEB O'R CYNGOR AM ADDOLI AR Y CYD

Adroddiadau Arolwg Ysgolion

Craffodd yr Awdurdod Lleol a'i CYSAG ar adrannau perthnasol adroddiadau arolygon ysgolion ESTYN ar gyfer cyfnod y flwyddyn academaidd Hydref 2014- Haf 2015. Os daw unrhyw faterion i'r golwg o ran addoli ar y cyd, megis diffyg diwallu gofynion statudol, yna mae'r ALI yn mynd ar ôl hynny gan ofyn am gynllun gweithredu. Dadansoddwyd adroddiadau arolwg tair ysgol gynradd a chyflwynwyd crynodeb o ganfyddiadau o'r arolygon hyn i'r aelodau.

Ni wnaeth un ysgol a gafodd ei harolygu yn Ionawr 2015 gydsynio'n llwyr â gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd. Gofynnwyd am gopi o gynllun gweithredu'r ysgolion a chynnig cyngor. Mae CYSAG yn tybio fod pob ysgol arall a gafodd arolwg - gan nad yw Estyn wedi nodi unrhyw enghreifftiau eraill o ddiffyg cydsynio - yn diwallu gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

Mae sylwadau mewn perthynas â datblygu ysbrydol i'w gweld ym mhob un o'r tri adroddiad o'r arolygon.

Gwnaeth un adroddiad sylwadau am ansawdd yr addoli ar y cyd gan ddatgan fod disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gwasanaethau ysgol a bod addoli ar y cyd yn rhoi cyfleoedd priodol iddynt fyfrio.

Ceisiadau am gais am derfyniadau

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau oddi wrth ysgolion am derfyniadau i gael eu gwneud o ran codi gofynion addoli ar y cyd fel ei fod yn Gristnogol ei natur yn gyfan gwbl neu'n fras.

Cyngor i ysgolion ynghylch addoli ar y cyd yn feunyddiol

Yng nghyfarfod haf 2016, derbyniodd CYSAG gyflwyniad oddi wrth ei ymgynghorydd proffesiynol am *Beth sy'n gwneud Addoli ar y Cyd Da a phenderfynu cylchredeg y cyflwyniad PowerPoint hwn i'r holl ysgolion yn yr ALI fel modd o'u cefnogi wrth iddynt ddarparu addoli ar y cyd beunyddiol.*

CRYNODEB O FATERION ERAILL

CCYSAGAUC

Mae CYSAG yn parhau i gefnogi gwaith CCYSAGauC ac yn cydnabod gwerth y corff o ran hyrwyddo Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd ar sail genedlaethol. Caiff CYSAG ei gynrychioli ar bwyllgor gwaith CCYSAGauC gan Gadeirydd CYSAG, Ernie Galsworthy a'u hymgyngorydd proffesiynol, Vicky Thomas ac maen nhw'n derbyn adborth rheolaidd oddi wrthynt a chynrychiolwyr eraill sy'n mynychu cyfarfodydd CCYSAGauC.

Addysg Holocaust

Hysbyswyd CYSAG Merthyr ynghylch thema Diwrnod Cofio'r Holocaust 2016, 'Don't Stand by' a bod gwybodaeth bellach am y thema am ddim ynghyd ag adnoddau addysgiadol Diwrnod Cofio'r Holocaust ar eu gwefan www.hmd.org.uk <http://www.hmd.org.uk>. Penderfynodd CYSAG hysbysu ysgolion am argaeledd yr adnoddau hyn a'u hannog i goffau Diwrnod Cofio'r Holocaust mewn rhyw fodd.

Hysbyswyd ysgolion hefyd am gyfres o ddigwyddiadau i goffau Diwrnod Cofio'r Holocaust 2016, a drefnwyd gan wasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Merthyr Tudful. Mae'r rhain yn cynnwys Cystadleuaeth Ysgrifennu Llyfrgelloedd Merthyr sy'n cael ei chynnig i bob ysgol yn y fwrdeistref; Gwasanaeth a gynhelir yn Eglwys Dewi Sant, Merthyr, a gweithdy â'r teitl '*Testimony of a Holocaust Survivor*' gyda Harry Bibring, Goroeswr yr Holocaust, Kindertransport, yn adrodd ei hanes. Cafwyd gwasanaeth coffa hefyd yn Eglwys Dewi Sant.

Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol Llywodraeth Cymru

Mae CYSAG wedi derbyn diweddariadau bob tymor ynghylch cynnydd Adolygiad y Cwricwlwm Cenedlaethol yn dilyn argymhelliad yr Athro Donaldson y dylai AG ffurfio rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r aros yn parhau ynghylch newyddion am ba ysgol arloesi fydd yn gyfrifol am ddatblygu cwricwlwm y Dyniaethau ac mae goblygiadau hynny ar gyfer datblygu maes llafur cytûn wedi cael ei drafod. Mae CYSAG wedi cytuno i aros tan bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion pellach ar siâp AG yn y cwricwlwm, a hefyd derbyn cyngor oddi wrth CCYSAGauC, cyn dechrau ar unrhyw adolygiad maes llafur cytûn AG.

Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer Manylebau TGAU a TAG SAFON UWCH

Hysbyswyd CYSAG o'r newidiadau arfaethedig i fanylebau ac arferion asesu ar gyfer TGAU a TAG SAFON UWCH gan ddechrau yn ystod Hydref 2016. Yn ystod tymor y gwanwyn cytunodd Cymwysterau Cymru a CBAC ohirio gweithredu TGAU Astudiaethau Crefydd tan fis Medi 2017 oherwydd bod cymeradwyaeth o'r manylebau mor hwyr yn digwydd. Cafodd ysgolion wybod am hyn. Mae CYSAG yn aros yn frwd am y manylebau terfynol fel y gellir hysbysu ysgolion o'u hargaeledd.

Rhaglen Asesu INCERTS

Derbyniodd CYSAG adroddiad yn amlinellu pryderon a godwyd gan PYCAG a CCYSAGauC o ran defnyddio rhaglen asesiadau ar-lein Inserts, sy'n tracio cynnydd disgyblion ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Addysg Grefyddol. Cafodd CYSAG wybod nad oedd rhai ysgolion yn defnyddio'r botwm dewis cywir wrth ddefnyddio'r rhaglen i dracio cynnydd mewn AG. Cytunodd CYSAG ddefnyddio

llythyr yn amlinellu'r dull cywir mewn perthynas â rhaglen Inserts, i'w gylchredeg i holl ysgolion cynradd Merthyr.

Arolwg Bagloriaeth Cymru

Hysbyswyd CYSAG am arolwg gan CCYSAGauC i archwilio'r effaith a gafwyd ar AG/AC gan lansiad Bagloriaeth Cymru newydd ym mis Medi 2015. Roedd diddordeb gan CCYSAGauC wybod sut mae ysgolion wedi rheoli gweithredu'r cymhwyster newydd yn eu lleoliad unigol ac a yw Bagloriaeth Cymru wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar Addysg Grefyddol mewn ysgolion ledled Cymru. Cynhyrchodd CCYSAGauC arolwg byr a gafodd ei gylchredeg i ysgolion uwchradd yn eu Hawdurdod Lleol gan CYSAG i ysgolion eu cwblhau a'u dychwelyd.

Canfyddodd y canlyniadau, ers gweithredu Bagloriaeth Cymru newydd, fod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn darparu Addysg Grefyddol statudol yn unol â Maes Llafur Lleol Cytûn ar gyfer AG yn CA4 ac yn cynnig cymhwyster AC TGAU fel cymhwyster cefnogi Bagloriaeth Cymru yn CA4. Mae'r rhan fwyaf yn cyflenwi'r cwrs hwn fel rhan o amser craidd AG.

Holodd yr arolwg a oedd Bagloriaeth Cymru newydd yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu ddim effaith ar AG. Ymatebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gan ddatgan nad oedd Bagloriaeth Cymru newydd yn cael unrhyw effaith ar AG. Rhoddwyd crynodeb yn yr adroddiad o'r ymatebion yn rhoi sylwadau am yr effaith gadarnhaol/negyddol. Roedd y sylwadau cadarnhaol yn cynnwys ei fod yn galluogi cynnwys newydd i AG, yn annog dull gweithredu addysgu a dysgu sy'n ysgogi meddwl ac mewn rhai achosion yn cynyddu'r amser a ddyrannwyd i addysgu AG. Amlygodd sylwadau negyddol y gostyngiad mewn amser craidd AG a'r gofyn bod rhai ysgolion yn cyflenwi Bagloriaeth Cymru yn lle TGAU AG ac felly'n cael gwared ar Gyrsiau Byr yn enwedig.

Cytunodd CYSAG gadw llygad ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru a'i effaith ar AG/AC CA4.

Hyfforddi aelodau CYSAG

Fel rhan o hyfforddi ei aelodau, cynigiodd CYSAG y canlynol:

Yn gyntaf, cadw aelodau'n gyfredol â datblygiadau mewn AG ac addoli ar y cyd drwy gyflwyniadau rheolaidd i Aelodau CYSAG. Gwnaeth Mrs Vicky Thomas nifer o gyflwyniadau eleni yn cynnwys:- adolygu'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'i oblygiadau i AG; datblygu manylebau arholiad diwygiedig a Beth sy'n gwneud addoli ar y cyd da mewn ysgolion.

Yn ail, cytunodd CYSAG ble y bo'n bosibl y byddent yn cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion ym Merthyr i aelodau ymgynefino ag AG mewn ysgolion. Cafwyd dau ymweliad eleni. I Ysgol Uwchradd Pen y Dre yn gyntaf ble cafwyd cyflwyniad am *Ba mor effeithiol yw Hwb+ o ran gwella cyrhaeddiad bechgyn ac agweddau negyddol tuag at AG?* Roedd yr ail yn ymweliad ag Ysgol Gynradd Twynrodyn ble y cafwyd cyflwyniadau am *Addoli ar y Cyd Beunyddiol - y Ffordd Ymlaen* a chyflwyniad am *Ddefnyddio Sgiliau Meddwl mewn AG*.

Mae CYSAG yn werthfawrogi iawn o'r cyfleoedd a gaiff eu cynnig drwy ymweliadau a chyflwyniadau er mwyn dyfod yn fwy gwybodus ynghylch materion AG ac Addoli ar y Cyd mewn ysgolion a hoffai estyn y gwerthfawrogiad hwnnw i bawb sydd ynghlwm

wrth hyn. Diolchir yn arbennig i Glerc CYSAG, Karen Vokes, am ei holl waith caled wrth wneud trefniadau o'r fath.

ATODIAD 1: AELODAETH O CYSAG

Awdurdod Lleol

Y Cyngorydd Gareth Lewis
Y Cyngorydd Ernie Galsworthy,
Y Cyngorydd Kate Moran

Awdurdod Addysg Lleol
Awdurdod Addysg Lleol
Awdurdod Addysg Lleol

Cymdeithasau athrawon

Amanda Jones

Cymdeithas Athrawon AG
Ysgol Uwchradd Afon Taf

Siân Bernard-Henderson/
Leanne McCarthy

Undeb Cenedlaethol yr Athrawon
Ysgol Uwchradd Cyfarthfa

Vacancy

UCAC

Vacancy

Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd

Helen Price/Justine Jones

NAS/UWT

Katy Thomas

Cymdeithas Rheolwyr Colegau

Mark Carrington,

NAHT
Ysgol Gymunedol Twynyrodyn
Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr
Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre

Lucy Draper

Enwadau Crefyddol

Gareth Tasker
Andy Pitt
Ann Starr
Father Mark Prevett
Janine Brill

Yr Eglwys Gatholig
Yr Eglwys Rydd / Eglwys Efengylaidd
Yr Eglwys Bresbyteraidd
Yr Eglwys yng Nghymru
Byddin yr Iachawdwriaeth

Swyddogion ALI

Dorothy Haines
Karen Vokes
Vicky Thomas

Pennaeth Gwella Ysgolion
Clerc CYSAG
Ymgynghorydd Annibynnol AG

ATODIAD 2: COFNOD O GYFARFODYDD A PHRIF EITMEAU AGENDA

3 Tachwedd 2015, Ysgol Uwchradd Pen y Dre, Merthyr Tudful

- Ymddiheuriadau
- Ethol Cadeirydd
- Ethol Is-gadeirydd
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi
- Cyflwyniad '*Defnyddio Hwb+ i wella ysgrifennu bechgyn*' Lucy Draper, Ysgol Uwchradd Pen y Dre
- Diweddaraid am yr Aelodaeth
- Amserlen o'r cyfarfodydd 2015-2016
- Adroddiad Blynyddol CYSAG 2014-15
- Cynllun Datblygu CYSAG 2015 – 2018
- Dadansoddiad adroddiad arolwg Hydref 2014 - Haf 2015
- AG a'r Cwricwlwm Cenedlaethol: Diweddariad
- Materion CCYSAGauC yn cynnwys adborth Cyfarfod Cyffredinol yn yr Wyddgrug 25 Mehefin 2014, penodi Pwyllgor Gweithredol a chynrychiolaeth CCYSAGauC ym Mlaenau Gwent ar 25/11/15
- Diwrnod Cofio'r Holocaust 2016
- Cais i gyflwyno cyflwyniad CCYSAGauC am 'Beldroedwyr Mwslim yn yr Uwch Gynghrair' i holl ysgolion uwchradd Merthyr
- Gohebiaeth

11 Chwefror 2016 Ysgol Gynradd Twynyrodyn, Merthyr Tudful

- Cyflwyniad ar AG yn Ysgol Twynyrodyn
- Ymddiheuriadau
- Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a materion yn codi
- Diweddariad am yr Aelodaeth
- Canlyniadau arholiadau Astudiaethau Crefydd 2015
- Dadansoddiad Lefelau Data CA3 2014 a 2015
- Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer Manylebau TGAU a TAG SAFON UWCH: Diweddariadau
- Adolygiad ac asesiad y Cwricwlwm Cenedlaethol: Diweddariad
- Diwrnod Cofio'r Holocaust 2016: Adborth
- Materion CCYSAGauC: adborth o gyfarfod yn Mlaenau Gwent; cynrychiolaeth yn y cyfarfod nesaf yn Hwlfordd ac enwebiadau i weithrediaeth CCYSAGauC
- Gohebiaeth

7 Mehefin 2016 yn y Ganolfan Ddinesig, Merthyr Tudful

- Ymddiheuriadau
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi
- Cyflwyniad am Addoli ar y Cyd mewn Ysgolion - Vicky Thomas
- Y diweddaraid am Aelodaeth
- Amserlen Cyfarfodydd 2016-2017
- Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer Manylebau TGAU a TAG SAFON UWCH: Diweddariad
- Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol ac Asesiad: Diweddariad
- Rhaglen Asesu INCERTS
- Arolwg Bagloriaeth Cymru gan CCYSAGauC: Adborth

- Materion CCYSAGauC yn cynnwys adroddiad cyfarfod CCYSAGauC yn Hwlfordd; cynrychiolaeth yn y cyfarfod nesaf yn Rhyl a Phleidleisio Gweithredol ar gyfer y Cyfnod 2016-2019.
- *Gohebiaeth*

Atodiad 3: Cynllun Datblygu CYSAG

CYNLLUN DATBLYGU CYSAG MERTHYR TUDFUL 2015 - 2018 (BLWYDDYN ACADEMAIDD)

Nod 1: Monitro safonau mewn Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefydd.

Cynllun gweithredu	Amserlen	Cyfranogwr yr	Amser a chostau	Deilliannau	Cynnydd
1.1 Monitro safonau drwy adolygu rheolaidd o'r canlynol: adroddiadau arolwg / adolygiadau thematig Estyn / adroddiadau hunan werthuso ysgolion, ac argymell, ble y bo'n angenrheidiol, gweithredu gan yr Awdurdod Lleol.	Eitem flynyddol agenda Tymor yr hydref	Ymgynghor ydd CYSAG llawn	Amser agenda Amser ymgynghorwr i'w ddadansoddi	Cyngor i ALI am y tueddiadau ledled y fwrdeistref sirol; cyngor, ble y bo'n briodol, ar ysgolion penodol; mynd ar ôl hynny drwy ymweld ag ysgolion ac adolygu cynllun gweithredu ble y bo'n angenrheidiol.	2015-2016 Ystyriwyd 3.11.15. Dim diffygion diwallu gofynion statudol ar gyfer AG wedi eu dynodi.
1.2 Derbyn gwybodaeth ar ganlyniadau: Aseiad Athrawon ar ddiwedd CA3; TGAU Astudiaethau Crefydd Cwrs Llawn a Chwrs Byr; Safon Uwch /Safon UG Astudiaethau Crefydd.	Tymor y gwanwyn	Ymgynghor ydd CYSAG llawn	Amser agenda Amser ymgynghorwr i'w ddadansoddi	Cyngor am dueddiadau ALI; cyngor ble y bo'n briodol, am ysgolion penodol.	2015-2016 Ystyriwyd 11.2.15. Ysgolion yn cael eu hysbysu am ddeilliannau.
1.3 Dynodi anghenion HMS, monitro a chynnig cyngor ar hyfforddi.	Tymor yr hydref	CYSAG llawn	Amser agenda	Derbyn rhaglen hyfforddi ynghyd â ffigurau ymgeiswyr; cyngor i'r ALI.	2015-2016 Dim HMS ar AG yn cael ei ddarparu gan ALI na CSC

MERTHYR TYDFIL CYNLLUN DATBLYGU CYSAG 2015 – 2018 (ACADEMIC YEAR)

Nod 2: Adolygu'r maes llafur cytûn (fel sy'n briodol) a chefnogi ei weithredu.

Cynllun gweithredu	Amserlen	Cyfranogwyr	Amser a chostau	Deilliannau	Cynnydd
2.1 Adolygu'r maes llafur cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol	Haf 2016 ymlaen (neu fel sy'n gymwys)	Ymgynghorydd CYSAG llawn Gweithgor PYCAG	Amser ymgynghori i adolygu'r maes llafur cytûn. Sefydlu gweithgor (os yw'n gymwys). Galw Cynhadledd Sefydlog i fabwysiadu'r maes llafur Costau cyhoeddi/cyfieithu (fel sy'n gymwys)	Adolygu a mabwysiadu maes llafur cytûn gan y Gynhadledd Sefydlog. Mae llafur cytûn o ran rhaglen hyfforddi i ysgolion (os yw'n ofynnol) Gweithredu maes llafur cytûn yn ystod tymor yr Hydref ar ôl ei fabwysiadu.	2015-2016 Mae gan CYSAG ddiweddariadau pob tymor ar ddatblygiad cwricwlwm. Mae CYSAG yn aros am wybodaeth bellach oddi wrth Lywodraeth Cymru ar ffurf AG ar y cwricwlwm, a chyngor oddi wrth CCYSAGauC, cyn dechrau ar unrhyw adolygiad maes llafur cytûn AG.
2.2 Deunydd i gefnogi gweithredu'r maes llafur cytûn ar gyfer AG	Cyfredol	Ymgynghorydd CYSAG llawn	Amser ymgynghori	Deunydd cefnogi ar gael i ysgolion a gellir cael gafael arnynt drwy wefan y Consortiwm.	2015-2016 Ysgolion sent materials from Carmarthenshire LA

MERTHYR TYDFIL CYNLLUN DATBLYGU CYSAG 2015 – 2018 (BLWYDDYN ACADEMAIDD)

Nod 3: Monitro darpariaeth a darparu cefnogaeth ar gyfer addoli ar y cyd.

Cynllun gweithredu	Amserlen	Cyfranogw yr	Amser a chostau	Deilliannau	Cynnydd
3.1 Monitro darparu addoli ar y cyd drwy adolygu'r canlynol yn rheolaidd – adroddiadau arolwg/ adroddiadau hunanwerthuso ysgolion; cymeradwyo, ble y bo'n angenrheidiol, gweithredu gan yr Awdurdod Lleol.	Eitem flynyddol agenda Tymor yr hydref	CYSAG llawn ac Ymgynghor ydd	Amser agenda Amser ymgynghorwr i'w ddadansoddi	Cyngor i ALI ar dueddiadau ledled y fwrdeistref sirol; cyngor, ble y bo'n briodol ar ysgolion penodol; mynd ar ôl hyn drwy ymweld ag ysgolion ac adolygu cynllun gweithredu ble y bo'n angenrheidiol.	2015-2016 Ystyriwyd 3.11.15. Un ysgol ddim yn diwallu gofynion statudol o ran addoli ar y cyd beunyddiol. Cynllun gweithredu'n ofynnol. Ymweld â'r ysgol i gael cyflwyniad o gynllun gweithredu. Cynnig cyngor.
3.2 Cefnogi gweithredu addoli ar y cyd statudol	Cyfredol	Gwasanaeth ymgynghori	Amser ymgynghori	Darparu Hyfforddiant mewn swydd (os yw'n gymwys) hysbysu ysgolion am adnoddau a gwefannau ar gyfer addoli ar y cyd. Hysbysu ysgolion am ddeunyddiau canllawiau sydd ar gael ar gyfer addoli ar y cyd	2015-2016 Ysgolion yn cael eu hysbysu am adnoddau i gefnogi Diwrnod Cofio'r Holocost 2016 yn cynnwys adnoddau ar gyfer addoli ar y cyd. Derbyniodd ysgolion gyflwyniad PowerPoint <i>Beth sy'n gwneud Addoli ar y Cyd</i>

Beunyddiol Da i gefnogi addoli ar y cyd mewn ysgolion.

MERTHYR TYDFIL CYNLLUN DATBLYGU CYSAG 2015 – 2018 (BLWYDDYN ACADEMAIDD)

Nod 4: Sicrhau CYSAG mwy gwybodus drwy ddarparu diweddariadau rheolaidd ar faterion lleol a chenedlaethol mewn perthynas ag AG ac addoli ar y cyd mewn ysgolion.

Cynllun gweithredu	Amserlen	Cyfranogwr yr	Amser a chostau	Deilliannau	Progress
4.1 Rhoi'r diweddarafr i aelodau am rôl CYSAG a'i oblygiadau; datblygiadau diweddar mewn AG ac addoli ar y cyd; deunyddiau canllawiau oddi wrth gyrff perthnasol; mewnbwn oddi wrth athrawon gweithredol a darparwyr allanol	Pob tymor/ Blynnyddol yn ôl y gofyn	Aelodau CYSAG , Cynghorwr, athrawon gweithredol, darparwyr allanol	Amser aelod; Cynghorwr / Amser swyddog	Aelodau CYSAG cwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. CYSAG ac ysgolion yn clywed y diweddarafr ac yn cael eu hysbysu am ddatblygiadau a mentrau diweddar, yn lleol ac yn genedlaethol.	2015-2016 Derbyniodd CYSAG ddiweddariadau am adolygiad NC a datblygiad manylebau arholiad. Derbyniodd CYSAG gyflwyniad am beth sy'n gwneud addoli ar y cyd da?
4.2 Rhaglen o ymweliadau ysgolion.	Pob tymor/Blynnyddol yn ôl y gofyn	Aelodau CYSAG, Cynghorwr/ Swyddogion	Amser aelod; Amser swyddog i drefnu ymweliadau	CYSAG mwy gwybodus o ran darpariaeth ac ymarfer mewn perthynas â AG ac addoli ar y cyd mewn ysgolion.	2015-2016 Ymwelodd CYSAG â dwy ysgol eleni a derbyn cyflwyniadau ar AG/Addoli ar y cyd yn yr ysgolion.

ATODIAD 4: CANLYNIADAU ARHOLIADAU MERTHYR TYDFIL 2013 - 2015

TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDD (CWRS LLAWN) 2015

	Merthyr 2015	Merthyr 2014	Merthyr 2013	Consortium 2015	Cymru 2015
A*-A	30.2%	18.8%	17.34%	31.7%	30.0%
A*-C	74.1%	65.3%	57.23%	72.7%	75.0%
A*- G	98.6%	98.8%	95.38%	97.1%	98.0%
Nifer ymgeiswyr	139 4 ysgolion	170 4 ysgolion	173 4 ysgolion	4462	11,167

TGAU ADDYSG GREFYDDOL (CWRS BYR) 2015

	Merthyr 2015	Merthyr 2014	Merthyr 2013	Consortium 2015	Cymru 2015
A*-A	22.8%	20.4%	22.01%	20.4%	14.0%
A*-C	62.5%	69.6%	55.98%	60.1%	52.0%
A*- G	96.6%	98.9%	96.14%	94.9%	93.0%
Nifer ymgeiswyr	325 4 ysgolion	270 3 ysgolion	259 4 ysgolion	6035	10,098

ADDYSG GREFYDDOL SAFON UWCH 2015

	Coleg Merthyr 2015	Merthyr 2014	Merthyr 2013	Consortium 2015	Cymru 2015
A*-A	5%	20.69%	23.08%	23.7%	23.0%
A*-C	79%	75.86%	84.62%	81.8%	81.0%
A*- E	100%	96.55%	100%	99.3%	100%
Nifer ymgeiswyr	25	29 3 ysgolion	39 3 ysgolion	539	1441

ASTUDIAETHAU CREFYDD TAG SAFON UWCH (SAFON UG) 2015

	Coleg Merthyr 2015	Merthyr 2014	Consortium 2014	Cymru 2014
A	0%	0%	8.06%	AMH
A - C	68%	66.67%	63.71%	AMH
A - E	100%	100%	92.74%	AMH
Nifer ymgeiswyr	25	9 1 ysgol	124	AMH

ATODIAD 5: Cyfnod Allweddol 3 Lefelau Addysg Grefyddol Blwyddyn 9

Merthyr 2015

BECHGYN	NOR	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5	Lefel 6	Lefel 7	Lefel 8	EP	Dim lefel	Digymhwyso	Cyfanswm	% L 5+	% L 6+
Cyfanswm rhifau	245	0	0	3	33	111	76	14	2	0	6		245	203	92
Canrannau		0	0	1.2	13.5	45.3	31.0	5.7	0.8	0	2.4		100	82.9	37.6
Consortiwm	4041	0	30 0.7	130 3.2	537 13.3	1756 43.5	1244 30.8	289 7.2	25 0.6	0	25 0.6	5 0.1	4041 100	3314 82.0	1558 38.6

MERCHED	NOR	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5	Lefel 6	Lefel 7	Lefel 8	EP	Dim lefel	Digymhwyso	Cyfanswm	% L 5+	% L 6+
Cyfanswm rhifau	215	0	0	3	15	81	91	23	0	0	2		215	195	114
Canrannau		0	0	1.4	7.0	37.7	42.3	10.7	0	0	0.9		100	90.7	53.0
Consortiwm	3775	0	3 0.1	40 1.1	269 7.1	1199 31.8	1468 38.9	692 18.3	87 2.3	1 0	16 0.4		3775 100	3447 91.3	2248 59.5

POB DISGYBL	NOR	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5	Lefel 6	Lefel 7	Lefel 8	EP	Dim lefel	Digymhwyso	Cyfanswm	% L 5+	% L 6+
Cyfanswm rhifau	460	0	0	6	48	192	167	37	2	0	8		460	398	206
Canrannau		0	0	1.3	10.4	41.7	36.3	8.0	0.4		1.7		100	86.5	44.8
Consortiwm	7816	0	33 0.4	170 2.2	806 10.3	2955 37.8	2712 34.7	981 12.6	112 1.4	1 0.0	41 0.5	5 0.1	7816 100	6761 86.5	3806 48.7

ATODIAD 6: CYLCHREDIAD YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

Caiff copïau eu hanfon yn electronig i'r cyrff perthnasol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefannau'r awdurdod lleol a CCYSAGauC i'w lawrlwytho gan fuddgyfranogwyr.

- Aelodau Merthyr Tudful
- Gwasanaethau Democraataidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Holl ysgolion Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Consortiwm Canolbarth y De
- Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC)
- Y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth
- Llywodraeth Cymru
- Estyn
- Cytûn

ATODIAD 7:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyfansoddiad CYSAG

Cylch gorchwyl

1. Cyngori'r ALI ar faterion sy'n gysylltiedig ag addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.
2. Cyngori'r ALI ar faterion sy'n gysylltiedig ag Addysg Grefyddol a roddir yn unol â meysydd llafur cytûn.
3. Penderfynu pryd, oddi fewn i gyfnod statudol o bum mlynedd, y dylai'r ALI adolygu ei faes llafur cytûn.
4. Ystyried gyda'r ALI a Chynhadledd Maes Llafur Cytûn unrhyw newidiadau gofynnol i'r maes llafur cytûn.
5. Ystyried gyda'r ALI y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig i Addysg Grefyddol yn ei ysgolion, gan dalu sylw penodol i ddulliau o addysgu, y dewis o ddeunydd addysgu a darpariaeth o hyfforddiant i athrawon.
6. Cynnig cyngor am unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'w swyddogaeth fel y gwêl yn gymwys.
7. Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol am ei waith, a ddylai:
 - a. ddynodi unrhyw faterion y mae wedi cyngori'r ALI amdano;
 - b. disgrifio natur y cyngor yn fras;
 - c. gosod allan ei resymau ar gyfer cynnig cyngor ar unrhyw faterion na chyfeiriwyd atynt yn y lle cyntaf gan yr ALI; a
 - d. cofnodi Aelodaeth CYSAG a'r dyddiadau y cynhelir cyfarfodydd.
8. Cyfranogi yng ngweithdrefnau cwynion statudol yr ALI, yn yr achosion hynny ble mae cwynion yn berthnasol i Addysg Grefyddol a/neu addoli ar y cyd.
9. Derbyn a gwneud terfyniadau mewn perthynas â cheisiadau oddi wrth benaethiaid ysgolion y sir ar gyfer codi neu addasu gofynion bod addoli ar y cyd mewn ysgolion o'r fath yn gorfod bod yn rhannol neu'n llwyr o natur Gristnogol yn fras.

Cyfansoddiad

10. Bydd y Cyngor yn cynnwys tri grŵp yn cynrychioli:
 - a. Y fath enwadau Cristnogol ac enwadau crefyddol eraill, a fydd ym marn yr ALI, yn adlewyrchu traddodiadau crefyddol yr ardal yn briodol.
 - b. Yr ALI.
11. Gall y Cyngor gyfethol aelodau hefyd.
12. Bydd aelodaeth o'r Cyngor am gyfnod o ddim llai na phedair blynedd. Gellir ailbenodi aelodau sydd â'u haelodaeth yn dod i ben.
13. Mae aelodaeth o'r Cyngor yn amodol ar yr amod fod yr ALI wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau ei hun fod y personau a benodir yn gynrychioliadol, os mai dyna'r achos, o'r enwadau neu sefydliadau dan sylw.
14. Rhaid i aelodau sy'n cynrychioli cymdeithasau athrawon gynnwys athrawon Addysg Grefyddol.
15. Gellir tynnu unigolion i ffwrdd o'r Cyngor os ydyn nhw'n gorffen bod yn gynrychioliadol o'r enwad, cymdeithas neu o'r Awdurdod y cawsant eu penodi i'w gynrychioli.
16. Gall unrhyw aelod o'r Cyngor ymddiswyddo o'i swydd ar unrhyw adeg.

Trafodion

17. Bydd y Cyngor yn cwrdd o leiaf un waith yn ystod pob tymor ysgol.
18. Bydd y Cyngor yn ethol o'i aelodaeth, ddirprwy gadeirydd yng nghyfarfod cyntaf pob blwyddyn academiaidd. Ni fydd cadeirydd na'r is-gadeirydd mewn unrhyw flwyddyn benodol yn cael eu dewis o'r un grŵp cynrychioliadol. Gellir ailbenodi cadeirydd pan ddaw ei dymor i ben.
19. Ynghylch unrhyw gwestiwn i'w benderfynu gan y Cyngor, dim ond y grwpiau cynrychioliadol ar y Cyngor fydd â'r hawl i bleidleisio, a bydd pob grŵp yn cael pleidlais sengl. Cyn bod pleidlais ffurfiol yn cael ei chymryd, bydd cyfle yn cael ei roi i bob grŵp cynrychioliadol bennu sut y caiff ei bleidlais ei bwrw.
20. Nid oes hawl i aelodau cyfetholedig bleidleisio.

21. Caiff agenda ar gyfer pob cyfarfod ei bennu gan y cadeirydd a'r is-gadeirydd mewn ymgynghoriad â chlerc CYSAG, Cyfarwyddwr Addysg a Swyddog Proffesiynol. Bydd unrhyw aelod o CYSAG sy'n pleidleisio â'r hawl i gynnig eitemau ar gyfer agenda.
22. Mewn achos pan na fydd unrhyw aelod yn gallu mynychu cyfarfod y Cyngor, gellir enwebu dirprwy gan y corff y mae'r person hwnnw yn ei gynrychioli, ar yr amod fod y dirprwy yn bodloni meini prawf cymhwyso a bod Gweithrediaeth Addysg yr ALI yn cael ei hysbysu cyn y cyfarfod.
23. Caiff ei ystyried bod cworwm ar gyfer cyfarfod y Cyngor os oes o leiaf un aelod o bob grŵp cynrychioli yn bresennol.
24. Ni chaiff dilysrwydd trafodion y Cyngor gael eu heffeithio gan:
 - a. swydd wag unrhyw aelod o'r Cyngor neu
 - b. ar y sail nad yw aelod o'r Cyngor a benodwyd i gynrychioli unrhyw enwad neu fudiad, ar adeg y trafodion, yn cynrychioli'r enwad neu'r mudiad dan sylw.
25. Gall grwpiau cynrychioliadol ar y Cyngor, ac eithrio rhai sy'n cynrychioli'r Awdurdod, alw ar unrhyw adeg am adolygiad o'r maes llafur cytûn cyfredol gan yr Awdurdod. Ar adeg o'r fath caiff Cynhadledd Maes Llafur Cytûn gael ei hansoddi a'i galw.
26. Bydd y Cyngor yn ystyried ei Adroddiad Blynyddol yn y cyfarfod cyntaf i'w gynnal ym mhob blwyddyn academaidd. Ar ôl i'r Cyngor ddilysu'r adroddiad, bydd yn cael ei gyhoeddi.
27. Bydd clerc CYSAG yn trefnu bod copïau o'r Adroddiad Blynyddol yn cael eu hanfon i holl ysgolion y sir yn yr Awdurdod, i AdAS, Y Llyfrgell Genedlaethol ac unigolion a sefydliadau eraill y mae'r Awdurdod Addysg yn barnu sy'n gymwys.